

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD  
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 19/01/2016

**PWNC / SUBJECT**

Eitem 6: Newidiadau yn y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

*Item 6: Changes in the Additional Learning Needs and Inclusion Service*

---

**PENDERFYNIAD / DECISION**

1. Parhau i gynnal trafodaethau gyda Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn ymchwilio'r cyfle i lunio Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Gyffredin a fydd yn cyfarch anghenion y disgyblion a'r bobl ifanc mewn modd effeithiol ac effeithlon.
  2. Cymeradwyaeth y Cabinet o Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad; gan ddal sylw i'r bwriad yn 1.
  3. Cymeradwyaeth o'r Achos Busnes - sef buddsoddiad unwaith ac am byth o hyd at £1,380,131 er mwyn dangos arbediad blynyddol parhaol o leiaf £808,461.
- 
1. *Continue discussions with Anglesey County Council to investigate the opportunity to draw up a Common Additional Learning Needs Strategy which will address the needs of pupils and young people in an effective and efficient manner.*
  2. *Cabinet approval of Gwynedd Council's Strategy for Additional Learning Needs and Inclusion; whilst having regard to the proposal in 1.*
  3. *Approval of the Business Case - a one-off investment of £1,380,131 to show a permanent annual saving of at least £808,461.*

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION**

Mae trawsnewid gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc, yn enwedig rhai bregus, yn un o brif flaenoriaethau Cynllun Strategol y Cyngor. Y bwriad

---

---

yw gwella deilliannau i blant a phobl ifanc, drwy drefnu gweithgareddau mwy ataliol o fewn y maes, gan sicrhau bod gwasanaethau mwy cyflawn a mwy integredig ar gael ar eu cyfer. Yn y cyd-destun hwn, mae Strategaeth wedi'i baratoi ar gyfer trawsnewid y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Ngwynedd.

Mae'n bwysig nodi y paratowyd Strategaeth newydd yng nghyd-destun newid arwyddocaol yn y maes, yn cynnwys:

- y cynigion deddfwriaethol ar gyfer diwygio'r fframwaith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol;
- y dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen hoelio sylw ar ymyrraeth gynnar ac ataliol;
- y rhaglen ar gyfer datblygu'r Ysgol Arbennig newydd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y Sir;
- y cyd-destun ariannol.

Daeth yr angen am Strategaeth o'r math i'r amlwg yn wyneb dadansoddiad o brofiadau plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Amlygwyd rhai gwendidau sylfaenol yn cynnwys:

- **Anghysondeb o fewn y gyfundrefn:**
  - o ran disgwyliadau rhieni; yn safon a lleoliad y ddarpariaeth ac yn niwylliant yr ysgolion.
- **Cyfundrefn draddodiadol a chymhleth**
  - meini prawf angen eu hadolygu; y gweithredu'n adweithiol (awdurdod ac ysgolion); darpariaeth yn cael ei gomisiynu'n allanol heb ddigon o reolaeth trosto.
- **Ansawdd perfformiad**
  - anghysondeb o fewn ysgolion a thimau arbenigol; diffygion mynediad at ddata cyfredol (y wybodaeth yn cael ei gadw ar wahân mewn ffurf wahanol); ac anodd profi cynnydd.
- **Perthynas â gwasanaethau eraill**
  - Y strwythur ddim yn hybu cydweithio.
- **Twf mewn anghenion penodol**
  - Y ddarpariaeth ddim yn adlewyrchu'r pwyslais cywir ar yr anghenion pennaf.
- **Diffyg cyfathrebu**
  - diffyg ymwybyddiaeth ar gyfer derbyn gwybodaeth; y gyfundrefn bresennol yn rhy gymhleth a diffygion cyfathrebu rhwng yr holl fudd ddeiliad.

---

Mae'r canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni drwy'r Strategaeth newydd

---

yn cynnwys:

- darpariaeth sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gan geisio adnabod cyflyrau yn gynnar iawn ym mywydau plant fel y gall hynny gael effaith ar eu haddysg a'u bywydau yn gyffredinol;
- cynyddu'r arbenigeddau yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;
- trefniadau amlasiantaethol cadarn o gyd-weithio a fydd yn arwain at rannu gwybodaeth, a sicrhau cydgyllunio effeithiol ar gyfer addysg a datblygiad plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol;
- cynnig gwasanaeth sy'n sicrhau bod ansawdd uchel yn perthyn i'r profiadau addysgol;
- plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth ychwanegol yn gynt; yn gwneud cynnydd addysgol ar gyflymder priodol, ac yn cyfrannu at hyrwyddo eu hannibyniaeth;
- amgylchedd ddysgu a'r ansawdd uchaf posib ar gyfer plant sydd efo'r anghenion mwyaf dwys;
- sicrhau cyfundrefn effeithiol ac effeithlon.

Yn ystod Medi - Hydref 2015 cynhaliwyd 22 o sesiynau ymgysylltu gyda grwpiau gwahanol a thrafodwyd gydag dros 390 o ran-ddeiliaid.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar y 26 Tachwedd 2015 yn rhoi manylion o'r Strategaeth Arfaethedig ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Ngwynedd.

Gweler isod sylwadau'r Pwyllgor Craffu:

“Cyfleu i'r Cabinet gymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu i'r strategaeth ddrafft yn ddarostyngedig i geisio cyfarch y materion a ganlyn:

- Cynnig yr un lefel a sicrwydd i ddisgyblion a rhieni ag sydd ar gael a dan y gyfundrefn bresennol;
- Yr angen i gyfarch anghenion llai dwys a gwneud hynny'n fuan;
- Y perygl y byddai ysgolion yn methu ymdopi'n ddigonol gyda phwysau ychwanegol yn sgil pwyslais y strategaeth ar yr ysgolion yn gwneud mwy;
- Y risg y byddai cyraeddiadau cymharol is rhai disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn arwain at amharodrydd gan ysgolion i'w cynnwys;
- Pryderon cyllidol yn sgil cost debygol ymestyn y ddarpariaeth hyd at 25 oed.”

---

Roedd y Cyng. Selwyn Griffiths yn adrodd ar y Pwyllgor Craffu

---

Gwasanaethau i'r cyfarfod o'r Cabinet, ac yn ychwanegol i'r uchod, nodwyd pryder ynghylch datblygiad y drafodaeth ar gydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn, a gallu ysgolion llai o faint i fedru ymdopi â'r gofynion ychwanegol.

Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiad y trafodaethau gyda Chyngor Sir Ynys Môn, sef bod yna gytundeb y gellid darganfod ffordd o barhau i gydweithio, wedi cytuno ar feini prawf cyffredin, ac ar ddull cyffredin o gyllido. Byddai'r Tîm Integredig yn ei le erbyn Medi 2016, a phawb yn cydweithio'n llawn erbyn Medi 2017.

Fel nodwyd uchod, mae'r Strategaeth wedi ei pharatoi yng nghyd-destun y cynigion deddfwriaethol ar gyfer diwygio'r fframwaith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Cyhoeddwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft Llywodraeth Cymru ar 6 Gorffennaf 2015 a daeth y cyfnod ymgynghori ar y Bil drafft i ben ar 18 Rhagfyr 2015. Disgwylir i'r Bil gael ei chyhoeddi i'r Cynulliad nesaf yn dilyn yr etholiad ym mis Mai, sy'n golygu o bosib na fydd unrhyw gynigion yn dod i rym cyn y flwyddyn academaidd 2017/18.

Wedi ystyriaeth lawn o gynigion y Bil drafft, rydym yn hyderus fod y Strategaeth yn cyfarch y newidiadau deddfwriaethol a gynigir. Bydd angen adolygu'r sefyllfa i sicrhau fod y Strategaeth yn cydymffurfio â newidiadau'r ddeddfwriaeth unwaith caiff y bil terfynol ei mabwysiadu. Bydd gweithredu'n gynnar ar ein Strategaeth yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i ymateb i ofynion y ddeddfwriaeth newydd pan ddaw i rym.

Yn unol â'r dyletswydd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynnig. Wedi ystyriaeth lawn, deuir i'r casgliad fod y Strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cyfarch yr ardrawiadau posib.

*Transforming services provided for children and young people, especially those who are vulnerable, is one of the main priorities of the Council's Strategic Plan. The aim is to ensure improved outcomes for children and young people, by organising more preventative activities in the field, by ensuring that more complete and more integrated services are available for them. In this context, the strategy has been prepared to transform the provision of Additional Learning Needs in Gwynedd.*

*It is important to note that this Strategy is prepared in the context of significant change in the field, including:*

- the legislative proposals for reforming the framework for additional learning needs;*
  - the evidence which suggests that there is a need to focus on early intervention and prevention;*
  - the programme to develop the new Special School for children and*
-

- 
- *young people with additional learning needs in the County;*  
*the financial context.*

*The need for such a strategy became apparent following an analysis of the experiences of children and young people with additional learning needs. Some basic weaknesses were highlighted, including:*

- ***Inconsistency within the system:***  
*- in terms of parents' expectations; the standard and location of the provision and the culture of schools.*
- ***Traditional and complicated system***  
*- criteria that need to be reviewed; the action is reactive (authority and schools); provision is commissioned externally without being sufficiently controlled.*
- ***Quality of performance***  
*- inconsistency within specialist schools and teams; lack of access to current data (the information being kept separately and in different formats); and difficult to prove progress.*
- ***Relationship with other services***  
*- the structure does not support collaboration.*
- ***Growth in specific needs***  
*- the provision does not reflect the correct emphasis on the main needs.*
- ***Lack of communication***  
*- lack of awareness for receiving information; the current system is too complicated and there is a lack of communication between all stakeholders.*

*The outcomes we seek to achieve through the new Strategy include:*

- *a provision which places much greater emphasis on early intervention especially in the early years and which seeks to identify conditions very early on in the children's lives so that this can have an impact on their education and their lives in general;*
  - *increasing the expertise of our schools with the use of training programmes;*
  - *robust multi-agency collaboration arrangements that will lead to sharing information and ensuring effective joint-planning for the education and development of children and young people who need additional support;*
  - *offering a service that ensures high quality educational experiences;*
  - *children and young people receiving the additional support sooner; making educational progress at an appropriate rate and contributing to promoting their independence;*
-

- 
- *a learning environment of the highest possible quality for children who have the most severe needs;*
  - *ensuring an effective and efficient system.*

*In September - October 2015, 22 engagement sessions were held with different groups and discussions were held with over 390 stakeholders.*

*A report was submitted to the Services Scrutiny Committee on 26 November 2015 providing information from the Draft Strategy for Additional Learning Needs in Gwynedd.*

*See below the Scrutiny Committee's comments:*

*"Convey to the Cabinet the Scrutiny Committee's approval to the draft strategy, subject to attempting to address the following issues:*

- *Offer the same level of certainty to pupils and parents as is available under the current system;*
- *The need to address less severe needs and to do so at an early stage;*
- *The danger that schools would fail to adequately cope with additional pressure due to the strategy's emphasis on the schools doing more;*
- *The risk that the comparably lower attainment level of some pupils with additional learning needs would lead to reluctance from schools to include them;*
- *Financial concerns due to the likely costs of extending the provision to young people up to the age of 25."*

*Cllr Selwyn Griffiths reported on the Services Scrutiny Committee to the Cabinet meeting, and in addition to the above, concern was expressed regarding the progress of the discussion on collaboration with Anglesey County Council, and the ability of smaller schools to cope with the additional requirements.*

*The latest information on the progress of discussions with Anglesey County Council was received, namely that there is agreement that a way of continuing to collaborate could be sought, having agreed on common criteria and the common method of funding. The Integrated Team would be in place by September 2016, and everyone will be collaborating fully by September 2017.*

*As noted above, the Strategy is prepared in the context of the legislative proposals for reforming the framework for additional learning needs. The Welsh Government published the Draft Bill for Additional Learning Needs on 6 July 2015 and the consultation on the draft Bill closed on 18 December 2015. The Bill is expected to be introduced to the Assembly following the*

---

---

*May elections, which means that it may be 2017/18 (academic year) before any proposed changes come into force.*

*Following full consideration of the draft Bill's proposals, we are confident that the Strategy addresses the proposed legislative changes. The situation will need to be reviewed once the final bill is adopted, to ensure that the Strategy conforms with the changes to the legislation. An early implementation of our Strategy will put us in a strong position to respond to the new legislative requirements when they come into force.*

*In accordance with the duty under the Equality Act 2010 an equality impact assessment regarding the proposals was undertaken. Following full consideration, it is concluded that the Strategy and the action plan address the possible impacts.*

---

## **SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS**

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Addysg.

*The report submitted by the Cabinet Member for Education was accepted.*

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS**

### 1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Mae'r angen am newid yn y maes hwn yn amlwg a bu cryn ymgysylltu yn sirol a ran y bwriad i newid. Rwy'n ymwybodol hefyd bod y Pwyllgor Craffu wedi cymeradwyo'r strategaeth drafft yn amodol ar rai pwyntiau a nodir ym mharagraff 2.5 a'r adroddiad.

Mae llawer a waith eto i'w wneud a ran gwireddu'r newid ac mae cefnogaeth y Cabinet ar y pwynt hwn yn allweddol.

*The need for change in this field is evident and there has been a great deal of county engagement with regards to the proposed change. I'm also aware that the Scrutiny Committee has approved the Draft Strategy subject to some of the points noted in paragraph 2.5 of this report.*

*There is still some work to be done in terms of realising the change and the support of the Cabinet on this point is key.*

### 2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Mae'r adroddiad yn rhoi sylw priodol i'r ystyriaethau sydd ynghlwm â sefydlu'r Strategaeth newydd gan gynnwys deilliannau y broses ymgynghorol a'r

---

---

oblygiadau o safbwynt cydraddoldeb. Fe nodir hefyd yn briodol yn yr adroddiad y rhagwelir fod y Strategaeth yn cyfarch y newidiadau statudol all ddeillio o ganlyniad i'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd Addysg (Cymru) 2015 Wrth symud ymlaen bydd gofyn rhoi sylw manylach i oblygiadau y cynigion a safbwynt partneriaethau a cyfeirir at hyn yn yr adroddiad.

*The report gives appropriate consideration to the factors which are relevant to establishing the Strategy including the results of the consultation process and the implications from an equalities perspective. It is also noted, appropriately in the report that it is anticipated that the Strategy addresses the possible statutory changes which could result as a consequence of the Additional Learning Needs and Education Tribunals (Wales) Bill 2015. In order to take matters forward more detailed consideration will need to be given to the proposals from a partnership perspective and this is referred to in the report.*

### 3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Mae £2.6m o adnodd un-tro heb ei ymrwymo yn y 'Gronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed'. Bydd sawl 'angen/defnydd' haeddiannol yn cystadlu am yr adnodd prin yma, ond mae'n resymegol i gefnogi'r awgrym i fuddsoddi £1.38m a'r gronfa yma i weithredu'r newid yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad, os bydd hynny'n sicrhau gellid cynhaeafu'r arbedion blynyddol parhaol a £808k, neu fwy, ynghyd â'r deilliannau eraill.

*There is an uncommitted one-off resource of £2.6m available in the 'Transformation Fund/Invest to Save'. Several deserving 'need/use' will be competing for this scarce resource, but it is logical to support the suggestion to invest £1.38m from this fund to implement the changes in Additional Learning Needs and Inclusion, if that ensures that the permanent annual savings of £808k, or more, can be achieved, along with the other outcomes.*

---

### **BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER**

Ddim yn fater lleol.  
*Not a local matter.*

---



**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD  
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 19/01/2016

**PWNC / SUBJECT**

Eitem 7: Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20

*Item 7: Strategic Equality Plan 2016-20*

---

**PENDERFYNIAD / DECISION**

Derbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 fel drafft ar gyfer ymgynghoriad gyda'r cyhoedd.

*To accept the Strategic Equality Plan 2016-20 as a draft for public consultation.*

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION**

Mae ein cynllun cydraddoldeb yn nodi ein Hamcanion Cydraddoldeb a'r camau y byddwn yn cymryd i'w gwireddu. Mae'r amcanion hyn wedi eu seilio ar:

- Wybodaeth fewnol
- Llais a chyfranogiad
- Data ar nodweddion cydraddoldeb

Ar ôl dadansoddi'r wybodaeth uchod, cyrhaeddwyd at y pedwar amcan canlynol:

- Amcan 1: Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio mewnbwn gan bobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb
- Amcan 2: Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb
- Amcan 3: Lleihau'r gwahaniaeth rhwng cynrychiolaeth aelodau etholedig a nodweddion poblogaeth y sir
- Amcan 4: Adnabod unrhyw wahaniaethau tâl a gweithredu i'w lleihau

Mae'r cynllun yn:

---

- 
- Dangos y pwyslais rydym yn ei osod ar dderbyn sylwadau a barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb ac ymateb i'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym wrth gynllunio ein gwasanaethau.
  - Amlygu ein bod yn canolbwyntio ar dreiddio materion cydraddoldeb i waith dydd i ddydd y Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb.
  - Tynnu sylw at y gwelliannau rydym eisiau eu gwneud er mwyn sicrhau asesiadau effaith cydraddoldeb sy'n gyson ac o'r ansawdd uchaf.
  - Gyson â'r chwe amcan rhanbarthol sydd wedi eu cytuno fel rhan o waith y Cyngor gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.
  - Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd wedi ei baratoi i gyd-fynd â'r cynllun yn dangos effaith gadarnhaol y cynllun ar bobl Gwynedd.
  - Bydd cynnydd y cynllun yn cael ei fonitro yn rhan o waith rheoli perfformiad arferol y Cyngor. Yn unol â gofynion y ddeddf, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol fydd yn dangos y cynnydd y byddwn wedi ei wneud tuag at gyflawni ein pedwar amcan.

*Our equality plan notes our Equality Objectives and the steps we will take to realise them. These objectives are based on:*

- *Internal information*
- *Voice and participation*
- *Data on equality characteristics*

*Having analysed the above information, the following four aims were reached:*

*Objective 1: To improve our arrangements to discover and use input from people who share equality characteristics*

*Objective 2: To improve our equality impact assessment arrangements*

*Objective 3: To reduce the difference between elected member representation and the county's population characteristics*

*Objective 4: To identify any pay differences and to act to reduce them*

---

---

*The plan:*

- *Demonstrates the emphasis we place on receiving the comments and opinions of people who share equality characteristics and to respond to that which they are telling us when we plan our services.*
- *Highlights that we are concentrating on permeating equality matters to the day to day work of the Council in order to provide services which make a difference to people who share equality characteristics.*
- *Draws attention to the improvements that we want to make in order to ensure equality impact assessments which are consistent and of the highest standard.*
- *Is consistent with the six regional objectives which have been agreed as part of the work of the Council with the North Wales Public Sector Equality Network.*
- *The Equality Impact Assessment which has been prepared alongside the plan demonstrates the positive impact of the plan on the people of Gwynedd.*
- *The progress of the plan will be monitored as part of the Council's usual performance management work. In accordance with the requirements of the act, we will publish an annual report which will demonstrate the progress that we will have made towards delivering our four objectives.*

---

**SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS**

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb.

*The report submitted by the Cabinet Member for Housing, Customer Care and Libraries, Deprivation and Equality was accepted.*

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS**

---

---

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive:-*

Mae'n ofyn statudol i ni fod yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar y Cynllun hwn. Mae'r Cynllun sydd gerbron wedi bod yn destun gwaith manwl ac mae ffocws a rhesymeg glir i'r amcanion ynddo. Rwy'n cymeradwyo'r ddogfen i ddibenion ymgynghori.

*It is a statutory requirement for us to be publishing and consulting on this Plan. The Plan submitted has been subject to detailed work and there is a clear focus and rationale to the objectives it includes. I approve the document for consultation purposes.*

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer:-*

Mabwysiadwyd y cynllun gwreiddiol yn 2012 am 4 blynedd yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Mae cynnal proses ymgynghoriol yn cyfarch gofynnion ac egwyddorion statudol ynglyn a sefydlu cynllun o'r fath. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

*The original plan was adopted in 2012 for four years in accordance with the statutory duties of the Council under equality legislation. Maintaining a consultative process addresses the statutory requirements and principles regarding the establishment of such a plan. I do not have anything to add from a propriety perspective.*

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer:-*

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i osgoi anghydraddoldeb, er ar adegau fod cost ychwanegol er mwyn sicrhau hynny. Ystyrir pob cynllun yn unigol a bydd gwasanaethau yn gweithredu o fewn eu hadnoddau cyfredol, neu yn ariannu'r gost (e.e. drwy gynaeafu arbediad net).

*The Council has committed to avoid inequality, although at times there is an additional cost in order to ensure that. Each plan is considered separately and services will take action within their current resources, or will finance the cost (e.g. through securing a net saving).*

---

**BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER**

Ddim yn fater lleol.  
*Not a local matter.*

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD  
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 19/01/2016

**PWNC / SUBJECT**

Eitem 8: Adolygiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn

*Item 8: Accommodation Needs Assessment of Gypsies and Travellers in Gwynedd and Môn*

---

**PENDERFYNIAD / DECISION**

Cymeradwyo'r argymhellion a wnaethpwyd yn yr Adolygiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn gan ganolbwyntio ar argymhellion Gwynedd sydd wedi eu nodi o 1-7 yn nhabl Argymhellion ac Oblygiadau yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

*To approve the recommendations made in the Anglesey and Gwynedd Gypsy and Travellers Accommodation Needs Assessment 2016 paying particular attention to recommendations made for Gwynedd which are included from 1-7 in the Recommendations and Implications table in the report submitted to the meeting.*

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION**

Mae Rhan 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei wneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal Asesiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal.

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai anghenion lletya Sipsiwn a Theithwyr gael eu hadnabod, eu deall a'i gyfarch ar yr un sail â grwpiau eraill o'r Gymuned.

Mae gofynion Llywodraeth Cymru yn nodi ei fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal Asesiad Lletya Sipsiwn a Theithwyr bob 5 mlynedd oherwydd natur symudol y boblogaeth hon.

Wrth gydymffurfio â deddfwriaeth wrth gyflawni astudiaeth hon, bydd Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn defnyddio'r wybodaeth i'w hystyried yn y Cynllun Datblygu Lleol -Gwynedd a Môn. Yn ogystal, bydd yn cynorthwyo Parc Cenedlaethol Eryri yn eu hadolygiad o'u Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

---

---

Yn unol â'r ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynnig a chyfeirir chi yn benodol i Atodiad B. Mae'r asesiad yn amlygu'r ardrawiadau posib a'r trefniadau sydd mewn lle i ymateb. Fe noder fod yr asesiad yn wedi canfod yr ardrawiadau posib canlynol :

Ymateb yn bositif i Ddyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb a nodweddion penodol gan fod yr arolwg yn adnabod yr angen am safleoedd yn ystod y 5 mlynedd nesaf fel sydd wedi eu hadnabod gan yr ymatebwyr.

Mae'r Asesiad yn cyfarch y rhain drwy gynnig cynyddu capasiti lleoliad parhaol a chreu safle stopio dros fydd yn darparu cyfleusterau gan ymateb yn uniongyrchol i'r angen sydd wedi ei adnabod.

Mae'r Cyngor wedi ymgymryd ag ymgynghoriad gyda Sipsiwn a theithwyr sydd wedi ei adnabod er mwyn canfod eu barn. Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod wedi ei selio ar yr ymatebion a dderbyniwyd drwy'r holiaduron.

O dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet i'r argymhellion a wnaethpwyd yn yr Adolygiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn, bydd angen cyflwyno'r Asesiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn i Lywodraeth Cymru erbyn 26ain o Chwefror 2016 i'w gymeradwyo.

Yn dilyn hynny, byddem yn cynnal Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr dwywaith y flwyddyn er mwyn gweithredu ar yr argymhellion drwy gynllun gwaith penodol.

*Part 3 of the Housing (Wales) Act 2014 requires Local Authorities to undertake a Gypsy and Travellers Accommodation Needs Assessment in their areas.*

*Welsh Government guidelines state that the accommodation needs of Gypsies and Travellers should be identified, understood and addressed similarly to other groups within the Community.*

*Welsh Government requirements note that Local Authorities are required to undertake a Gypsy and Travellers Accommodation Needs Assessment every five years due to the transient nature of this population.*

*By undertaking this study and complying with legislation, Gwynedd and Anglesey Councils will utilise the information for consideration within the Local Development Plan - Gwynedd and Anglesey. Equally, it will assist the National Park with its review of its adopted Local Development Plan.*

---

---

*In accordance with the duty under the Equality Act 2010 an equality impact assessment regarding the proposals was undertaken and you are referred specifically to Appendix B. The assessment highlights the possible impacts and the arrangements in place to respond. It is noted that the assessment concludes the following possible impact:*

*Respond positively to the General Duty of the Equality Act and the protected characteristics as the survey identifies the need for pitches in the next five years as identified by the respondents.*

*The assessment addresses these by identifying the need to increase the capacity of the permanent site and to create a temporary stopping site which will provide facilities which will address the need identified.*

*The Council has undertaken the consultation with Gypsy and Travellers which has been identified to ascertain their views. The report submitted is based on their responses which were received via questionnaires.*

*Following the Cabinet's approval of the recommendations made in the Gwynedd and Anglesey Gypsy and Travellers Accommodation Needs Review, the Gwynedd and Anglesey Gypsy and Travellers Accommodation Needs Assessment will need to be submitted to Welsh Government by 26 February 2016 for approval.*

*Subsequently, we will hold a Gypsy and Travellers Steering Group twice a year in order to implement the recommendations by means of a specific action plan.*

---

## **SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS**

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb.

*The report submitted by the Cabinet Member for Housing, Customer Care and Libraries was accepted.*

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS**

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive:-*

Mae'r adroddiad yn esbonio'r angen i wneud yr adolygiad hwn ac mae goblygiadau'r argymhellion yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad. Nod oes

---

---

gennyf unrhyw beth arall i'w ychwanegu.

*The report explains the need to undertake this review and the implications of the recommendations are highlighted in the report. I have nothing else to add.*

## 2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi Asesiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr o fewn yr ardal. Mae'r Asesiad yn ddarostyngedig i gadarnhad Gweinidogion Cymru. Hefyd bydd Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ddiwallu'r anghenion a adnabyddir o fewn yr asesiad. Mae angen felly sicrhau fod canfyddiadau'r Asesiad yn gadarn gan fod oblygiadau cyfreithiol yn deillio o'r Asesiad.

O ran yr argymhellion o fewn yr adroddiad i ddiwallu'r anghenion a adnabyddir, bydd prosesau penodol angen eu dilyn er mwyn eu gwireddu. Bydd angen eglurder pellach, a chyngor cyfreithiol penodol, wrth lunio canllawiau/polisïau wrth ddynodi manau stopio dros dro.

*There is a statutory duty on the Council to prepare a Gypsy and Travellers Accommodation Needs Assessment within its area. The Assessment is subject to approval by Welsh Ministers. Also, the Housing (Wales) Act 2014 will place an obligation on the Council to satisfy the identified needs within the assessment. There is a need therefore to ensure that the findings of the Assessment are robust as there are legal obligations which follow from the Assessment.*

*In relation to the recommendations within the report to satisfy the recognised identified needs, specific processes will need to be followed for them to be achieved. Further clarity, and specific legal advice, is required when formulating guidance/policy in relation to temporary stopping places.*

## 3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Mae'r adroddiad yn argymhell ehangu'r ddarpariaeth ar y safle sipsiwn a theithwyr presennol yn Llandygai. Fel mae'r adroddiad yn nodi, byddai angen gwneud cais i Lywodraeth Cymru ariannu'r cyfalaf (100%) er mwyn ehangu'r safle. Mewn blynyddoedd diweddar, bu trefn briodol o ran rhedeg y safle, gyda'r preswylwyr yn talu rhent ac yn cyfrannu at eu costau trydan a dŵr. Pe bai hyn yn parhau, yna byddai modd dygymod gyda'r costau rhedeg ychwanegol o fewn y gyllideb bresennol.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y dylai 'man stopio dros dro' gael ei adnabod o fewn ardal Caernarfon. Pan fydd sipsiwn a theithwyr yn sefydlu eu hunain ar safle anawdurdodedig, mae'r costau ynghlwm a hyn yn gallu bod yn uchel.

---



---

Am y rheswm yma, mae'r gwasanaeth wedi bod yn cyfrannu at gronfa safleoedd anawdurdodedig dros y blynyddoedd er mwyn dygymod gyda'r costau pan fydd safle anawdurdodedig yn codi. Gan na fu llawer o hyn yn y blynyddoedd diwethaf, erbyn diwedd 2015/16 mae'n debyg bydd na £35k ar gael yn y gronfa. Gall y gronfa yma fod ar gael er mwyn ariannu costau un-tro o sefydlu 'man stopio dros dro'.

*The report recommends expanding the present provision of the gypsy and travellers site at Llandygai. As the report notes, it would be necessary to apply to the Welsh Government to fund the capital (100%) in order to expand the site. In recent year, there has been a proper procedure in the running of the site, with the residents paying rent and contributing to the costs of their electricity and water usage. If this continues, then it would be possible to cope with the additional running costs within the existing budget.*

*The report also states that a 'temporary stopping point' should be identified within the Caernarfon area. When gypsies and travellers settle in unauthorized sites, the costs involved can be high. For this reason, the service has been contributing over the years to an Unauthorized Sites Fund in order to cope with the costs of unauthorized sites as they arise. Since there has been little in recent years, by the end of 2015/16 it is likely that there will probably be £35k available in the fund. This fund can be made available to fund one-off costs when establishing a 'temporary stopping point'.*

---

#### **BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER**

Mae safle parhaol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr o fewn ward yr Aelod Cabinet ar gyfer Cynllunio a byddai unrhyw ddarpariaeth i ymestyn neu greu llecynnau ychwanegol, rhai parhaol neu dros dro yn rhan o drefn cyflwyno cais drwy gynllunio

*A permanent site for Gypsies and Travellers is within the ward of the Cabinet Member for Planning and any provision to extend or create additional plots, whether they are permanent or temporary, would be part of the procedure of submitting a planning application.*

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD  
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 19/01/2016

**PWNC / SUBJECT**

Eitem 9: Ymgynghoriad ar Ddyfodol Cartref y Frondeg

*Item 9: Consultation on the Future of the Frondeg Home*

---

**PENDERFYNIAD / DECISION**

1. Datblygu Opsiwn 5, sef model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu ar safle Y Frondeg.
  2. Dod â defnydd cartref preswyl cofrestredig Y Frondeg i ben, yn dilyn cwblhau'r datblygiad llety newydd.
  3. Trosglwyddo'r safle i bartner gweithredol e.e. cymdeithas tai er cydweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r model llety newydd.
1. *Develop Option 5, namely a new accommodation model for adults with learning disabilities on Y Frondeg site.*
  2. *Bring the use of Y Frondeg registered residential home to an end, following the completion of the new accommodation development.*
  3. *Transfer the site to a housing association partner to work in partnership to develop the new accommodation model.*

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION**

Ers 2013 bu'r Cyngor yn cyd-drafod gyda defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a staff cartref preswyl cofrestredig Y Frondeg, ac â'r gymuned leol, ynglŷn â'u dyheadau am ddyfodol y gwasanaeth i oedolion ag anabledd dysgu. Yn dilyn y gwaith hwn ac ymchwil pellach gan swyddogion adnabuwyd 6 opsiwn i'w hystyried ar gyfer dyfodol darpariaeth ar y safle.

Penderfynodd y Cabinet ar 14 Gorffennaf 2015 i ymgynghori'n ffurfiol ar ddyfodol cartref Y Frondeg. Yr opsiwn a ffafriwyd gan y Cyngor oedd Opsiwn 5, sef datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu ar safle'r Frondeg.

---

---

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol cartref preswyl Y Frondeg, rhwng 14 Medi 2015 hyd at 30 Hydref 2015, er mwyn canfod barn y budd-ddeiliaid a'r cyhoedd ar Opsiwn 5. Cafwyd cyfle yn yr ymgynghoriad i roi barn ar y 6 opsiwn a adnabuwyd.

Mae canlyniad yr ymgynghoriad yn dangos ymateb cymysg i'r cynnig i ddatblygu model lletya modern a phwrpasol ar gyfer 16 oedolyn gydag anabledd dysgu.

Cafwyd ymateb gan 57 unigolyn i'r holiadur gyda mwyafrif sylweddol sef 47 (82 %) o'r ymatebwyr yn cefnogi opsiwn 5. 5 (8.8%) o'r ymatebwyr oedd yn cefnogi opsiwn 2, 1 (1.8%) yn cefnogi opsiwn 4 ac 1 (1.8%) yn cefnogi opsiwn gwahanol na gynigwyd gyda 3 heb ateb.

Roedd yr ymgynghoriad ffurfiol yn gofyn am sylwadau a barn y budd-ddeiliad ar yr opsiwn a ffafrir gan y Cyngor. Tra roedd cefnogaeth gan nifer i ddatblygu gwasanaeth pwrpasol roedd hefyd nifer o sylwadau yn mynegi pryder gyda'r model newydd. Derbyniwyd sylwadau yn canmol y ddarpariaeth yn Y Frondeg gyda nifer yn pryderu am effaith unrhyw newid. Cafwyd 11 ymateb gan deulu defnyddwyr gwasanaeth Y Frondeg, roedd 5 yn cefnogi opsiwn 5, 5 yn cefnogi opsiynau i addasu Y Frondeg ag un heb fynegi barn.

Buasai addasiadau i gartref Y Frondeg yn golygu buddsoddiad sylweddol ond o weithredu hyn ni fuasai'r gwasanaeth yn cyd-fynd gyda strategaeth Cymru na gweledigaeth Y Cyngor.

Bydd angen sicrhau fod sylw yn cael ei roi i'r holl faterion sydd wedi eu codi cyn ag yn ystod yr ymgynghoriad.

Gwnaed yr argymhelliad i ffafrio Opsiwn 5 ar sail y canlynol:

- Mae cartref cofrestredig Y Frondeg yn fodel traddodiadol o ddarparu Gwasanaeth.
  - Byddai angen buddsoddiad sylweddol i'r adeilad presennol.
  - Nid yw'r model presennol yn cyd-fynd â Pholisi Llywodraeth Cymru na gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer gwasanaethau ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu.
  - Byddai Opsiwn 5 yn cydymffurfio ag egwyddorion Polisiâu Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru, gweledigaeth Cyngor Gwynedd, a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)2014. Byddai hefyd yn cynnig gwasanaeth a all fod yn fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, yn fwy cost effeithiol ac yn rhoi ystyriaeth i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.
-

- 
- Byddai Opsiwn 5 yn cyfrannu tuag at gynllunio ar gyfer cynnydd mewn galw i'r dyfodol ac yn rhoi cyfle i rai defnyddwyr sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal yn all-sirol i ddychwelyd i fyw i Wynedd.
  - Byddai opsiwn 5 yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu arbenigedd yng Ngwynedd i gefnogi unigolion gydag anghenion dwys a chymhleth.

Yn unol â'r ddyletswydd dan y **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynnig.

Wedi ystyriaeth lawn, deuir i'r casgliad fod y Strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cyfarch yr ardrawiadau posib.

Yn ogystal, mae trefniadau mewn lle i sicrhau fod y sefyllfa'n cael ei monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. O ganlyniad, rydym yn hyderus fod canfyddiadau'r asesiad yn gyfredol ac yn berthnasol i'r penderfyniad a geisir.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2016 bwriedir sefydlu Grŵp Ffocws gyda phrif fudd-ddeiliad er mwyn cyd-gynhyrchu darpariaeth addas a chyfrannu tuag at lunio cynlluniau llety pwrpasol ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu ar y safle. Bydd y Grŵp Ffocws yn fodd i lunio gwasanaeth sy'n sicrhau llais a defnyddiwr, rhoi'r person yn ganolog a datblygu gwasanaeth arloesol ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu yng Ngwynedd.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i adnabod y darpar denantiaid y byddai'r datblygiad newydd yn addas ar eu cyfer. Bydd lle i bob un preswylydd presennol Y Frondeg yn y datblygiad newydd ynghyd a rhai unigolion mewn lleoliadau all-sirol ar hyn o bryd ac unigolion a phobl ifanc o Wynedd fydd angen llety i'r dyfodol.

Mae yn allweddol pwysleisio'r ffaith na ellir dod â defnydd presennol cartref y Frondeg i ben hyd nes y byddai'r datblygiad newydd wedi cael ei gwblhau.

*Since 2013, the Council has been holding discussions with Y Frondeg registered residential home service users, families and staff, and with the local community, about their aspirations for the future of the service for adults with a learning disability. Following this work and further research by officers, 6 options were identified to be considered as future provision on the site.*

*On 14 July 2015, the Cabinet decided to hold a formal consultation on the future of Y Frondeg home. The option favoured by the Council was Option 5, namely to develop a new accommodation model for adults with learning disabilities on the Frondeg site.*

*Following the Cabinet's decision, a formal consultation was held on the*

---

---

*future of Y Frondeg residential home, between 14 September 2015 and 30 October 2015, in order to find the stakeholders' and the public's opinion on Option 5. Five other options were also noted, and an opportunity was had in the consultation to express a view on them.*

*The outcome of the consultation showed a mixed response to the proposal to develop a modern and appropriate model for accommodating 16 adults with learning disabilities.*

*Responses to the questionnaire were received from 57 individuals with a convincing majority of 47 (82%) of respondents supporting option 5. 5 (8.8%) of the respondents who supported option 2, 1 (1.8%) supporting option 4 and 1 (1.8%) supporting different options than offered with 3 unanswered.*

*The formal consultation was seeking views and opinions of the stakeholders on the preferred option by the Council. Whilst there was support from many to developing a dedicated service there were also a number of comments expressing concern with the new model. Comments were received commending the provision at Y Frondeg with many concerned about the effect of any change. There were 11 responses from families of Y Frondeg services users; 5 supported option 5, 5 supported options to adapt Y Frondeg and one who did not express an opinion.*

*Modifications to Y Frondeg home would mean a significant investment but in implementing this, the service would not correspond with the Wales strategy or the Council's vision.*

*It will be necessary to ensure that attention is given to all the issues that have been raised before and during the consultation.*

*The recommendation to favour Option 5 was made on the following basis:*

- Y Frondeg registered care home is a traditional model of Service provision.*
  - A significant investment is required for the building.*
  - The current model does not comply with the vision of Welsh Government or Gwynedd Council for services for adults with a learning disability.*
  - Option 5 would comply with the Learning Disability policy principles of Welsh Government and Gwynedd Council, and the requirement of the Social Services and Wellbeing Act (wales) 2014. It would also offer a service which could be more sustainable for the future, cost effective and would give consideration to the financial challenge facing the Council.*
  - Option 5 would contribute towards planning for a future increase in demand, and would provide an opportunity for some service users*
-

---

*who are currently receiving care outside the county to return to Gwynedd to live.*

- *Option 5 would provide an opportunity to develop expertise in Gwynedd to support individuals with profound and complex needs.*

*In accordance with the duty under the **Equality Act 2010** an equality impact assessment regarding the proposal was undertaken.*

*Following full consideration, it is concluded that the Strategy and the action plan address the possible impacts.*

*In addition, there are procedures in place to ensure that the situation is being monitored and reviewed regularly. As a result, we are confident that the findings of the assessment are current and relevant to the decision sought.*

*By the end of March 2016, it is intended to establish a Focus Group with the main stakeholders in order to co-produce suitable provision and purposeful accommodation for adults with a learning disability on the site. The Focus Groups is a means to develop a service which ensures the voice of the service user, places the person central to the process and develop an innovative service for adults with a learning disability in Gwynedd.*

*Further work will be undertaken to identify the prospective tenants for whom the new development would be suitable. There will be a place for every existing resident of Y Frondeg at the new development along with some individuals currently in out-of-county placements and individuals and young people from Gwynedd who will require accommodation in the future.*

*It is crucial to stress the fact that it is not possible to end the existing use of Y Frondeg home until the new development has been completed.*

---

## **SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS**

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Lles.

Nodwyd y byddai trafod unrhyw drosglwyddiad i bartner angen rhoi sylw i amodau a thelerau fyddai'n gwarchod buddiannau ac amcanion y Cyngor.

*The report submitted by the Cabinet Member for Adults, Health and Well-being was accepted.*

*It was noted that discussing any transfer to a partner would need to address the terms and conditions which would protect the interests and objectives of*

---

---

*the Council.*

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS**

### **1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-**

Er nad yw newid bob amser yn hawdd, yn yr achos hwn, mae'r achos dros newid yn un amlwg sydd yn cael ei gefnogi gan y mwyafrif llethol o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mae angen derbyn yr her hynny yn awr a symud ymlaen i'r camau allweddol o adnabod partner addas a sicrhau manylder y pecyn ariannol a fyddai'n gwireddu'r datblygiad.

*Although change is not always easy, in this case, the reason for change is obvious and is being supported by the overwhelming majority of those who responded to the consultation. We need to accept this challenge now and move on to the key steps of identifying a suitable partner and create a detailed financial package that would ensure the realization of this development.*

### **2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-**

Yn dilyn cwblhau cyfnod ymgynghoriad mae'r Cabinet mewn sefyllfa i ddod i benderfyniad ar ddyfodol y cartref. Mae gofyn felly cloriannu'r holl ffactorau sydd yn berthnasol i'r penderfyniad gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chanlyniadau'r asesiad ardrawiad cydraddoldeb.

Amlygir bwriad i drosglwyddo'r safle i ddwylo partner gweithredol fel cyfrwng i wireddu'r opsiwn a ffafrir. Bydd angen gwaith pellach ar yr elfen yma wrth symud ymlaen i sicrhau fod y drefn penodi partner a'r amodau ynglŷn ag unrhyw drosglwyddiad yn gyfreithiol briodol ac yn gwarchod a hyrwyddo buddiannau'r Cyngor a'i ddisgwyliadau am y defnydd y datblygiad newydd.

*Following completion of the consultation period the Cabinet is now in a position to come to a decision as to the future of the home. It is therefore necessary to weigh up all the factors which are relevant to the decision including consultation responses and the result of the equalities impact assessment.*

*The intention to transfer the site to an operative partner is highlighted as a means of achieving the preferred option. Further work will be required on this aspect as it moves forward to ensure that the arrangements for appointing a partner and the conditions relation to any transfer are legally correct and protect and promote the interest of the Council and its expectations as to the use of the new development.*

---

---

### 3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Ni fu newid yn yr ystyriaethau / ffigyrau ariannol ar gyfer opsiwn 5 ers cyflwynwyd yr adroddiad blaenorol i Gabinet 14/07/15. Pryd hynny, nodais –

- Bu ystyriaeth briodol o'r achos busnes perthnasol, gyda'r arbedion £143,000 o'r buddsoddiad yn asesiad darbodus. Rhaid mentro er mwyn sicrhau'r arbedion, a bydd yn golygu buddsoddiad cyfalaf go sylweddol gan Gyngor Gwynedd er mwyn datblygu'r model llety cefnogol newydd wrth ymyl Cartref Frondeg, ac mae risg ariannol ynghlwm.
- Bydd gwireddu'r arbedion yn dibynnu ar y Gwasanaeth Anabledd Dysgu i lenwi'r unedau newydd (16 lle i gyd, gyda 10 eisoes yn Frondeg). Diau fe fydd y Cabinet awydd gofyn i'r Adran Oedolion gymryd camau priodol er mwyn lleddfu'r risg o lefydd gwag.
- Hefyd, gan fod yr ased ym mherchnogaeth ein 'partner' yn y fenter, dylid ymchwilio i drefniadau fel arwystl cyfreithiol ar i'r eiddo fod ar gael i'r pwrpas priodol, fel amod o'r 'grant' i'r 'partner'.

•  
Mae'r pwyntiau uchod yn parhau'n berthnasol ac yn allweddol i lwyddiant ariannol y fenter.

*There has been no change in the issues / financial figures for option 5 since the previous report was submitted to the Cabinet on 14/07/15. At that time, I noted -*

- *A proper consideration of the relevant business case was made, and a prudent assessment of the investment suggested savings of £143,000. We must venture in order to achieve savings, and this will involve sizeable capital investment by Gwynedd Council to develop a new model of supported accommodation near Frondeg, and a financial risk is attached to this course of action.*
- *Realising the savings will depend on the Learning Disabilities Service filling the new units (16 places in total, with 10 already in Frondeg). The Cabinet will doubtless ask the Adults Department to take appropriate steps to mitigate the risk of vacancies.*
- *In addition, since the asset is owned by our 'partner' in the initiative, arrangements such as a legal charge, to ensure that the property will be available for the appropriate purpose, should be explored, as a condition of a 'grant' to the 'partner'.*

•  
*The above points are still relevant and key to the financial success of the enterprise.*

---

**BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER**

---



---

Diolch am y cyfle i ymateb. Am nifer o flynyddoedd mae trigolion Y Frondeg wedi byw mewn cartref sy'n is na'r safon byw yn y gymdeithas heddiw. Yr wyf yn credu bod hwn yn gam ymlaen i roi safon dda o fyw i'r preswylwyr , a hefyd i staff gael gweithio mewn amgylchedd modern.

*Thank you for the opportunity to respond. For several years, the residents of Frondeg have lived in a home that is sub-standard in today's society. I think this is a step forward to provide residents with a good standard of living and also for staff to work in a modern environment.*

---